OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2139 (Cy. 209)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Awst 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *29 Awst 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Medi 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 6(4)(**1**), 16(1)(**2**), 17(2)(**3**), 26(2)(a) a (3)(**4**) a 48(1)(**5**) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**6**), a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**7**).

Yn unol ag adran 48(4A)(**8**) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y Rheoliadau canlynol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd—

(a) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu(**9**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 sy'n gosod rheolau manwl ar gymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 o ran hysbysu defnyddwyr am gynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu(**10**);

(c) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 yn sefydlu system o reolaeth Gymunedol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin(**11**); a

(**1**) Diwygiwyd adran 6(4) gan adran 31 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40) a pharagraff 6 o Atodlen 9 iddi; adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), a pharagraffau 7, 10(1) a (3) o Atodlen 5 iddi, adran 40(4) o'r Ddeddf honno, ac Atodlen 6 iddi, ac O.S. 2002/794.

(**2**) Diwygiwyd adran 16(1) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi.

(**3**) Diwygiwyd adran 17(2) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a pharagraffau 7, 8 a 12 o Atodlen 5 iddi, ac O.S. 2011/1043.

(**4**) Diddymwyd adran 26(3) yn rhannol gan adran 40(4) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac Atodlen 6 iddi.

(**5**) Diwygiwyd adran 48(1) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi.

(**6**) 1990 p.16. Trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir ar y cyd ag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**7**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(**8**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a pharagraffau 7 ac 21 o Atodlen 5 iddi.

(**9**) OJ Rhif L 17, 21.1.2000, t 22, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan OJ Rhif L 349, 19.12.2012, t 4.

(**10**) OJ Rhif L 278, 23.10.2001, t 6, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan OJ Rhif L 362, 20.12.2006, t 1.

(**11**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t 1.

(d) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 404/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar weithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/ 2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin(**12**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**13**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bo'r Rheoliadau hyn yn cael eu paratoi a'u gwerthuso.

# RHAN 1

## Cyflwyniad

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a rhychwant

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Medi 2013 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau'r UE" ("*the EU Regulations*") yw Rheoliad 104/2000, Rheoliad 2065/2001, Rheoliad 1224/2009 a Rheoliad 404/2011;

ystyr "Rheoliad 104/2000" ("*Regulation 104/2000*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu;

ystyr "Rheoliad 2065/2001" ("*Regulation 2065/2001*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 o ran hysbysu defnyddwyr am gynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu;

ystyr "Rheoliad 1224/2009" ("*Regulation 1224/2009*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin;

ystyr "Rheoliad 404/2011" ("*Regulation 404/2011*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 404/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae'r cyfeiriadau at unrhyw un neu ragor o Reoliadau'r UE yn gyfeiriadau at Reoliadau'r UE dan sylw fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd; a

(b) mae gan y termau a ddefnyddir hefyd yn unrhyw un neu ragor o Reoliadau'r UE yr un ystyr ag a roddir yn Rheoliadau'r UE dan sylw.

(**12**) OJ Rhif L 112, 30.4.2011, t 1, fel y'i diwygiwyd gan OJ Rhif L 328, 10.12.2011, t 58.
(**13**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t 14.

# RHAN 2

## Gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr a gallu i olrhain yng Nghymru

**Dehongli Rhan 3**

**3.** Yn y Rhan hon, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

**Gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr a gallu i olrhain**

**4.**—(1) Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "gofyniad gwybodaeth i ddefnyddwyr" ("*consumer information requirement*") yw gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2), yn ddarostyngedig i baragraffau (4) i (7); a

(b) ystyr "gofyniad gallu i olrhain" ("*traceability requirement*") yw gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), yn ddarostyngedig i baragraff (7).

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), y gofynion yw—

(a) gofyniad a bennir yn Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 (darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr) fel y'i darllenir ar y cyd â'r darpariaethau canlynol o Reoliad 2065/2001—

(i) Erthyglau 2 a 3 (dynodiad masnachol),

(ii) Erthygl 4(1) a (3) (dull cynhyrchu),

(iii) Erthygl 5 (cylch y ddalfa), a

(iv) Erthygl 6 (gwerthiannau cyfun);

(b) gofyniad a bennir yn Erthygl 58(6) o Reoliad 1224/2009 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthyglau 67(13) a 68 o Reoliad 404/2011.

(3) At ddibenion paragraff (1)(b), y gofynion yw Erthygl 58(2), (3) a (5) o Reoliad 1224/2009 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 58(7) o'r Rheoliad hwnnw ac Erthygl 67(1) i (3) a (5) i (13) o Reoliad 404/2011.

(4) Nid yw'r gofyniad a bennir yn Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 4(1) o Reoliad 2065/2001 yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 4(2) o Reoliad 2065/2001.

(5) Nid yw'r gofyniad a bennir yn Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 5(1)(c) o Reoliad 2065/2001 yn rhagwahardd nodi amrywiol Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd fel y'i disgrifir yn Erthygl 5(1)(c) o Reoliad 2065/2001.

(6) Nid yw'r gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(a) yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff olaf Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000, fel y'i darllenir ar y cyd â brawddeg olaf Erthygl 7 o Reoliad 2065/2001, lle nad yw pob pryniant yn fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 20 ewro mewn sterling neu, yn achos gwerthiant uniongyrchol o gwch pysgota, 50 ewro.

(7) Nid yw'r gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (2)(b) a (3) yn gymwys mewn amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 58(8) o Reoliad 1224/2009, fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 67(14) o Reoliad 404/2011, lle nad yw'r gwerthiant yn fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 50 ewro y diwrnod mewn sterling.

**Hysbysiad gwella**

**5.**—(1) Mae adran 10 o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Yn lle is-adran (1), rhodder—

"(1) If an authorised officer of an enforcement authority has reasonable grounds for believing that an operator has not complied with, or is not likely to comply with, a consumer information requirement or a traceability requirement, the officer may, by notice served on that operator (in this Act referred to as an "improvement notice")—

(a) state the officer's grounds for believing that the operator is failing to comply with those requirements;

(b) specify the matters which constitute the operator's failure so to comply;

(c) specify the measures which, in the officer's opinion, the operator must take in order to secure compliance; and

(d) require the operator to take those measures, or measures which are at least equivalent to them, within such period as may be specified in the notice."

(3) Yn lle is-adran (3), rhodder—

"(3) In this section—

(a) "consumer information requirement" and "traceability requirement" have the meanings given by regulation 4(1) of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013;

(b) "operator" has the same meaning as in the EU Regulations as defined in regulation 2(1) of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013 as read with regulation 2(2)(a) of those Regulations."

**Apelio i lys ynadon**

**6.**—(1) Mae adran 37 o'r Ddeddf(**14**) (apelau i lys ynadon neu siryf) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Yn lle is-adran (1), rhodder—

"(1) Any person who is aggrieved by a decision of an authorised officer of an enforcement authority to serve an improvement notice under section 10, as applied by regulation 5 of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013, may appeal to the magistrates' court."

(3) Hepgorer is-adrannau (2) i (5).

(4) Yn is-adran (6), yn lle "(3) or (4)", rhodder "(1)".

**Apelau yn erbyn hysbysiadau gwella**

**7.**—(1) Mae adran 39 o'r Ddeddf (apelau yn erbyn hysbysiadau gwella) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Yn lle is-adran (1), rhodder—

"(1) On an appeal against an improvement notice served under section 10, as applied by regulation 5 of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013, the court may either cancel or affirm the notice and, if it affirms it, may do so either in its original form or with such modifications as the court may in the circumstances think fit."

(3) Yn is-adran (3), hepgorer "for want of prosecution".

(**14**) Diwygiwyd adran 37 gan adran 48(1) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p.15) a pharagraff 13(1) a (3) o Atodlen 8 iddi a chan adran 146 o'r Ddeddf honno, a Rhan 1 o Atodlen 23 iddi.

**Gofyniad i gadw cofnodion**

**8.**—(1) At ddibenion Erthygl 58(4) o Reoliad 1224/2009, rhaid i weithredwr gadw cofnod o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn yr Erthygl honno fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 67(4) o Reoliad 404/2011.

(2) Rhaid cadw'r cofnod am dair blynedd o'r dyddiad y caiff y trafodyn ei gwblhau.

(3) Mae'n drosedd i fethu â chydymffurfio â'r rheoliad hwn.

**Gofyniad i gyflwyno cofnodion**

**9.** Mae gweithredwr sy'n methu â chydymffurfio ag ail frawddeg Erthygl 58(4) o Reoliad 1224/2009 yn euog o drosedd.

**Cosbau**

**10.** Bydd person sy'n euog o drosedd o dan reoliad 8 neu 9 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Cymhwyso ac addasu'r Ddeddf**

**11.** Mae'r Atodlen (cymhwyso ac addasu'r Ddeddf) yn cael effaith.

**Gorfodi**

**12.**—(1) Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

(2) Mae pob awdurdod bwyd yn awdurdod cymwys yn ei ardal at ddibenion Erthygl 58(4) o Reoliad 1224/2009 ac Erthygl 67(5) o Reoliad 404/2011.

**Dirymu**

**13.** Mae Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2010(**15**) wedi eu dirymu.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

27 Awst 2013

(**15**) O.S. 2010/797 (Cy.78), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043.

ATODLEN

Rheoliad 11

Cymhwyso ac addasu'r Ddeddf

# RHAN 1

## Cyffredinol

**1.** Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiadau canlynol—

| *Adran o'r Ddeddf* | *Yr addasiad* |
|---|---|
| Adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl) | Yn yr adrannau hyn, yn lle "this Act", ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder "the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013" |
| Adran 30(8)(**16**) (sy'n ymwneud â thystiolaeth o dystysgrifau a roddir gan ddadansoddydd neu archwilydd bwyd) | |
| Adran 33 (rhwystro etc swyddogion) | |
| Adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll) | |
| Adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall) | Yn lle "any of the preceding provisions of this Part", rhodder "section 10(2), as applied by regulation **Error! Reference source not found.** of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013, or regulation 8 or 9 of those Regulations" |
| Adran 21(**17**) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) | Yn is-adran (1), yn lle "any of the preceding provisions of this Part" rhodder "section 10(2), as applied by regulation 5 of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013, or regulation 8 or 9 of those Regulations"<br><br>Hepgorer is-adrannau (2) i (4) |
| Adran 29 (caffael samplau) | Ym mharagraff (b)(ii), ar ôl "under section 32 below", mewnosoder "as applied by regulation 13 of, and the Schedule to, the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013" |
| Adran 35(**18**) (cosbi troseddau) | Yn is-adran (1), ar ôl "section 33(1) above", mewnosoder "as applied by regulation 11 of, and the Schedule to, the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013"<br><br>Ar ôl is-adran (1), mewnosoder— |

(**16**) Diwygiwyd adran 30 gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi.
(**17**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.
(**18**) Diwygiwyd adran 35 gan adran 280(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44) a pharagraff 42 o Atodlen 26 iddi ac O.S. 1996/2235 a 2004/3279.

| *Adran o'r Ddeddf* | *Yr addasiad* |
|---|---|
| | "(1A) A person guilty of an offence under section 10(2), as applied by regulation **Error! Reference source not found.** of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013, is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale."<br><br>Yn is-adran (2)—<br>(a) yn lle'r geiriau "any other offence under this Act", rhodder "an offence under section 33(2) as applied by regulation 11 of, and the Schedule to, the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013";<br>(b) ym mharagraff (b), yn lle "the relevant amount" rhodder "the statutory maximum"<br><br>Hepgorer is-adrannau (3) a (4) |
| Adran 36 (troseddau gan gyrff corfforaethol) | Yn lle "this Act", rhodder "section 10(2) as applied by regulation 7 of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013 or regulation 8 or 9 of those Regulations" |

# RHAN 2

## Pwerau mynediad

**2.** At ddibenion galluogi swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi i ganfod a oes unrhyw dramgwyddau, neu a oes unrhyw dramgwyddau wedi bod, o ran gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr neu ofynion gallu i olrhain, caiff adran 32 o'r Ddeddf(**19**) (pwerau mynediad) ei addasu yn ei gymhwysiad i'r Rheoliadau hyn fel a ganlyn—

(a) yn is-adran (1)(a), ar ôl "made under it" mewnosoder ", or of a consumer information requirement or a traceability requirement";

(b) ar ôl is-adran (9), mewnosoder—

"(10) In this section, "consumer information requirement" and "traceability requirement" have the meanings given by regulation 4(1) of the Fish Labelling (Wales) Regulations 2013."

(**19**) Diwygiwyd adran 32 gan adran 70 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16) a pharagraff 18 o Ran 2 o Atodlen 2 iddi.

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi yng Nghymru ofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr Pennod 2 o Deitl I o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (OJ Rhif L 17, 21.1.2000, t 22) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 sy'n gosod rheolau manwl ar gymhwysiad Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 o ran hysbysu defnyddwyr am gynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (OJ Rhif L 278, 23.10.2001, t 6). Maent hefyd yn gorfodi yng Nghymru ofynion gallu i olrhain Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin (OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t 1) ac Erthygl 67 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 404/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 gan sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (OJ Rhif L 112, 30.4.2011, t 1).

Mae rheoliad 4 yn nodi'r gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr a'r gofynion gallu i olrhain.

Mae rheoliad 5 yn cymhwyso adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p.16) gydag addasiadau fel y gall swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad gwella i weithredwr sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr neu ofynion gallu i olrhain. Mae rheoliad 6 yn cymhwyso adran 37 o'r Ddeddf honno gydag addasiadau fel y gall gweithredwr apelio yn erbyn cyflwyno hysbysiad gwella i lys yr ynadon. Mae rheoliad 7 yn cymhwyso adran 39 o'r Ddeddf i alluogi'r llys i naill ai ddileu neu gadarnhau hysbysiad gwella.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gadw cofnodion o wybodaeth a bennir yn Erthygl 58(4) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 (fel y'i darllenir gydag Erthygl 67(4) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 404/2011) ac mae'n creu trosedd am fethu â chydymffurfio â'r gofyniad hwnnw. Mae rheoliad 9 yn creu trosedd am fethu â chyflwyno'r cofnodion hynny ar alw yn groes i'r Erthygl honno.

Mae rheoliad 11 a'r Atodlen yn cymhwyso darpariaethau penodol eraill o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i'r Rheoliadau hyn gydag addasiadau canlyniadol.

Mae rheoliad 12 yn darparu bod yn rhaid i bob awdurdod bwyd yng Nghymru weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW.